# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 25.06.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Eddie Dogan, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Llywarch Bowen Jones, Eryl Jones-Williams, Angela Russell, Elfed W. Williams, Gethin G. Williams, Gruffydd Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Huw Edwards, Christopher O'Neal, Peter Read, Ann Williams

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd W. Tudor Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2012/13.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peter Read yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2012/13.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Elfed Williams fuddiant personol mewn perthynas â modurdy G&H Car & Commercial, Caernarfon gan ei fod yn adnabod y perchennog.

Datganodd y Cynghorydd Llywarch Bowen Jones fuddiant personol mewn perthynas â Modurdy Gwalia, Caeathro gan bod perthynas iddo yn gweithio yno.

'Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

**4. DIWYGIO TREFN PENODI MODURDAI I GYNNAL PROFION CERBYDAU TACSI**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar ddiwygio trefn penodi modurdai i gynnal profion cerbydau tacsi.

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu bod y Cyngor yn trwyddedu oddeutu 217 o gerbydau hacni a 186 o gerbydau hurio preifat drwy'r sir. Er mwyn cydymffurfio ag amodau'r drwydded, mae'n ofynnol i bob cerbyd gael dau archwiliad mecanyddol y flwyddyn sef –
a) MOT Arferol – gallai perchennog y cerbyd ddewis unrhyw fodurdy sy'n gymwys i gynnal y prawf.
b) Ail brawf – yn bresennol, cynhelir yr ail brawf mewn modurdy cymwys o ddewis y Cyngor, gyda un modurdy wedi ei benodi yn y dair ardal.

Nododd yr ymgorfforwyd y gofynion hyn fel amodau trwydded ac fe'i mabwysiadwyd ym mholisi trwyddedu cerbydau tacsi'r Cyngor. Yn ogystal, mae'r gofynion yn

seiliedig ar yr arweiniad a geid yng nghanllawiau ymarfer da'r Weinyddiaeth Drafnidiaeth.

Ar hyn o bryd mae tri modurdy sy'n cyrraedd y gofynion perthnasol wedi eu hawdurdodi i gynnal profion MOT a'r ail brawf mecanyddol sy'n ofynnol ar gerbydau tacsi. Modurdy'r Cyngor sydd wedi bod yn cynnal y profion ar gyfer cerbydau ardal Meirionnydd. Fe adolygwyd y trefniant o ddewis a phenodi modurdy cymwys bob tair blynedd, yn unol â phenderfyniad y pwyllgor hwn. Nododd bod swyddogion yr uned drwyddedu ar hyn o bryd yn gweinyddu'r broses o wneud apwyntiadau fel mae'r cerbydau angen prawf, gyda'r modurdy'n gyfrifol am gynnal y profion angenrheidiol gan anfon canlyniad y prawf i'r uned drwyddedu. Mae perchennog y cerbyd yn talu cost y prawf yn uniongyrchol i'r modurdy.

Dechreuwyd ar y broses o adolygu'r trefniant presennol yn ddiweddar drwy hysbysebu'n y wasg am fynegiant o ddiddordeb gan fodurdai yn ardaloedd Arfon a Dwyfor. Ni ymestynnwyd yr hysbyseb i ardal Meirionnydd ar y pryd oherwydd bod modurdy'r Cyngor yn parhau i gynnig y gwasanaeth i brofi cerbydau. Derbyniwyd ymateb gan 14 o fodurdai yn ardal Arfon a Dwyfor yn mynegi diddordeb sef –

- LAS Landrovers, Llandygai
- Elias Garage, Bangor
- Gwalia Garage, Caeathro
- Garej Arwyn, Penygroes
- Povey's Garage, Penygroes
- Modurdy B&K Williams, Caernarfon
- Modurdy Dolydd, Groeslon
- Modurdy Ffrydlas, Bethesda
- G&H Car & Commercial, Caernarfon
- Peblig Tyre & Exhaust, Caernarfon
- Hardy's, Pwllheli
- Auto Mech Services, Criccieth
- A&E Motors, Porthmadog
- Bridge Garage, Pwllheli

Cadarnhaodd bod pob un o'r modurdai a gysylltodd yn gallu darparu'r hyn sy'n berthnasol i drefniadau profion, am bris rhesymol.

O safbwynt yr opsiynau ar gyfer adolygu'r drefn bresennol, nododd bod Canllawiau Ymarfer Da'r Weinyddiaeth Drafnidiaeth yn awgrymu y dylid awdurdodi mwy nag un modurdy cymwys mewn ardal ddaearyddol eang fel Gwynedd. Gan bod cynifer â 14 modurdy wedi mynegi diddordeb. bydd angen penderfynu'r ffordd ymlaen a rhoddodd fanylion am y pwyntiau y dylid eu hystyried.

**PENDERFYNWYD awdurdodi'r 14 modurdy cymwys a fynegodd ddiddordeb, i gynnal profion mecanyddol ar gerbydau hacni a hurio preifat ac hysbysebu am fynegiant o ddiddordeb yn yr un modd ymysg modurdai yn ardal Meirionnydd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:25a.m. a daeth i ben am 10.45am